Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd am dros ganrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:

Ficer/Vicar: Y Parchedig Dyfrig C. Lloyd
Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Y Parchedig Rhian Linecar (*Offeiriad*)
Ffôn: 01446 760 007
E-bost: rlinecar@gmail.com
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Wyn Mears - Ffôn: 029 2075 8726
E-bost: wyn@wynmears.com
Gwynn Matthews – Ffôn: 029 2089 1802
E-bost: m.g.derwendeg@gmail.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 029 2088 5151
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i Eglwys Dewi Sant.

8 Mai 2022
Pasg IV

10.30am Gwasanaeth Aml-oed
Darllenydd: Liz Harewood
Emynau a threfn gwasanaeth yn y llyfryn

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 114
Darlleniadau: Eseia 63:7-14
Luc 24:36-49
Darllenwyr: Margaret Hughes / Gwynn Matthews
Emynau: 99 (Wareham 279); 103 (Gopsal 121); 335 (Dolwyddelen)

Podlediadau:
Does dim podlediadau y Sul hwn.

YN EIN GWEDDÏAU

Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Cathrin Brynach, John Hicks, Ann Wyn Jones, Val Peel, Nia Roberts, Gwen Thomas ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, dros Richard Owen a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

YN YR EGLWYS:

Dydd Mawrth 10 Mai 2022
Dim ymarfer côr

Dydd Mercher 11 Mai 2022
10.30am – Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 15 Mai 2022
Pasg V
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

HEDDIW: PODLEDIADAU
Ni ddarlledir podlediadau o'r gwasanaethau y Sul hwn.
RHÔL ETHOLWYR – NODYN ATGOFFA
Diolch i bawb sydd wedi ailymrwymo i'r Rhôl Etholwyr am y pum mlynedd nesaf. Os nad ydych wedi cael y cyfle i wneud eto, mae croeso i chi ddychwelyd y ffurflen cyn gynted â phosib, neu ymuno â rhestr cyfeillion yr eglwys. **PWYSIG:** Oherwydd y rheoliadau Diogelu Data a ddaeth i rym yn 2018, mae'n ofynnol i ni ddileu'r manylion cyswllt sydd ar yr hen rôl etholwyr â'r hen restr cyfeillion. Felly, os nad ydym yn derbyn eich caniatâd i ddefnyddio'ch data personol ni allwn gadw mewn cysylltiad â chi ar e-bost na thrwy'r post.
AGOR YR EGLWYS - GWIRFODDOLI
Yr ydym yn agor yr eglwys i'r cyhoedd ar foreau Mercher rhwng 11.00am ac 1.00pm yn ystod mis Mai a Mehefin. Diolch i bawb sydd eisoes wedi cynnig gwarchod yr eglwys a chroesawu ymwelwyr. Os oes unrhyw un arall a hoffai gynorthwyo a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys.
COFFI A CHLONC
Cynhelir Coffi a Chlonc dydd Sadwrn 21 Mai rhwng 10.30am a 12.00pm. Oherwydd y gwaith ar y toiledau a'r gwaith glanhau sydd angen ei wneud yn y neuadd mae'n edrych yn debyg y bydd y Coffi a Chlonc dros Zoom. Gobeithir cynnal y bore coffi wyneb yn wyneb ym mis Mehefin.
FFAIR WEINIDOGAETHAU
Cynhelir ffair weinidogaethau yn Abaty Margam ddydd Sadwrn 14 Mai rhwng 11.00am a 4.00pm. Diben y ffair y dathlu bywyd yr esgobaeth a'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo a chyfoethogi gweinidogaeth yr Eglwys a bywyd ffydd personol. Croeso cynnes i bawb. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan yr Esgobaeth:
https://llandaff.churchinwales.org.uk/en/
DARLLENWYR
Yr ydym yn brin o unigolion i ddarllen y llithoedd yn y gwasanaethau boreol a hwyrol ar y Sul. Os hoffech darllen yn un o'r gwasanaethau hyn a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys neu fynnu gair â Gwynn Matthews.
BLODAU'R ALLOR
Mae'r rota newydd i'w gweld yng nghefn yr eglwys. Mae nifer o fylchau arni o hyd. Os hoffech roi blodau ar yr allor a wnewch chi roi eich enw o dan eich dewis chi o ddyddiad/au.
TOILEDAU – Y DIWEDDARAF
Mae'r gwaith ar y toiledau yn tynnu at ei derfyn. Mae un toiled ar gael i'r gynulleidfa er nad yw'r gwaith paentio wedi'i gwblhau eto. Ymddiheuriadau am yr holl ddwst sydd yn y cyntedd.
TE'R DI-GARTREF.
Mae cynnig te prynhawn i'r digartref yn Festri'r Tabernacl yr Ais yn ailgychwyn. Mae EDS i lawr i ddarparu'r te prynhawn Sul 5 Mehefin. Mae angen o leiaf tri gwirfoddolwr i helpu. (Mae'r 5ed yn syrthio ar Ŵyl Banc y Jiwbilî). Os ydych ar gael i helpu a wnewch chi gysylltu yn uniongyrchol â Judith Poulson ar Whatsapp neu ar ei ffôn symudol: 07799445943 cyn gynted ag sy'n bosib. *Judith Poulson.*
AGOR YR EGLWYS
Ar ddyletswydd dydd Mercher 11 Mai 2022:
Eryl Fuge a Delyth Davies

GWEDDÏAU'R SUL
Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:
- Eglise Anglicane du Rwanda
- Ardal Gweinidogaeth Margam, y Parchedig Jon Durley (Arweinydd), Wendy Xerri (Cadeirydd Lleyg)

GWYLIAU A DARLLENIADAU
Dydd Llun 9 Mai: Gregor o Nasiansus (390), Esgob
Actau 11:1-18; Salm 43; Ioan 10:1-10
Gweddïwn dros: Esgobaeth Lexington, yr Eglwys Esgobol (Talaith IV)
Deoniaeth Castell Nedd, y Parchedig Chris Coles, y Deon Bro
Dydd Mawrth 10 Mai:
Actau 11:19-26; Salm 87; Ioan 10:22-30
Gweddïwn dros: Esgobaeth Liberia, Eglwys Talaith Gorllewin Affrica
Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd, y Parchedig Andrew Meredith (Arweinydd); Moira Randall (Arweinydd Lleyg)
Dydd Mercher 11 Mai:
Actau 12:24-13:5a; Salm 67; Ioan 12:44-50
Gweddïwn dros: Esgobaeth Lichfield, Eglwys Loegr (Talaith Caergaint)
Adran Cyfathrebu yr Esgobaeth, Matt Batten Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Dydd Iau 12 Mai:
Actau 13:13-25; Salm 89:19-26; Ioan 13:16-20
Gweddïwn dros: Esgobaeth Limerick a Killadloe, Eglwys Iwerddon (Talaith Dulyn)
Ardal Gweinidogaeth Afon Nedd, y Parchedig Ganon Lynda Newman (Arweinydd); Mark Ritzmann (Cadeirydd Lleyg)
Canolfan Genhadu Byddin yr Eglwys yn Nghastell Nedd, Cadfridog Andy Settle
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Yr Henadur Davies, y pennaeth Mrs Colette Matchett, y staff a'r disgyblion
Dydd Gwener 13 Mai:
Actau 13:26-33; Salm 2; Ioan 14:1-7
Gweddïwn dros: Esgobaeth Lincoln, Eglwys Loegr (Talaith Caergaint)
Deoniaeth y Rhondda, y Parchedig Philip Leyshon, y Deon Bro
Dydd Sadwrn 14 Mai: Mathias, Apostol
Eseia 22:15-25; Salm 15; Ioan 15:9-17
Gweddïwn dros: Esgobaeth Litoral Ecuador, Eglwys Esgobol, Talaith IX
Ardal Gweinidogaeth y Rhondda, y Parchedig Philip Leyshon (Arweinydd), Nicola Free (Cadeirydd Lleyg)